**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Mawrth 14eg 2016 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Colin L Hughes, Brian Davies, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones (cyrrhaeddodd 7.15pm) a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler (cyrrhaeddodd 7.20pm).

**Ymddiheuriadau:** Dim.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych - personol.
(2) Cyng Colin Hughes - unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych - personol.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 15fed 2016.**

3. **Materion yn codi:** Dim

A. **<u>Amgylchedd.</u>**

1. **Gardd Goffa Dr Evan Pierce.** (1) Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Prue Probert. Nodwyd yr e-bost.
(2) Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Sodexo. Nodwyd y llythyr.

2. **Lloches Bysiau Hen Ffordd Rhuthun**. Dywedwyd fod difrod wedi ei achosi i'r lloches. Roedd y lloches ym mherchnogaeth y cyngor tref. Cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Pen y Bryn Joinery i gario allan atgyweiriadau - derbyniwyd y dyfynbris.

3. **Clirio Llwybrau**. Cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Paul Liversidge ar gyfer y tymor ar ddod - derbyniwyd y dyfynbris.

B. **<u>Cyllid</u>**

1. **Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Gwyn Jones - ffioedd darlithoedd treftadaeth (4.2.16 & 25.2.16)<br>(Rhif siec 005831) | - | £50.00 |
| (2) | Ernest Martin - cloi ac agor giât Gardd Dr E P (Chwefror)<br>(Rhif siec 005832) | - | £60.00 |
| (3) | Sodexo - cynnal a chadw - Gardd Dr E P (Chwefror)<br>(Rhif siec 005833) | - | £605.88 |
| (4) | Catrin Gilkes - gwasanaeth cyfieithu 22.2.16<br>(Rhif siec 005834) | - | £95.00 |
| (5) | Trinity Mirror - hysbyseb swydd<br>(Rhif siec 005835) | - | £1,080.00 |
| (6) | D Bryn Jones - cyfleusterau cyfieithu cyfarfod blynyddol y cyngor 1.5.15<br>(Rhif siec 005836) | - | £200.00 |

(7) E Gwynn Matthews - ffi darlith treftadaeth 3.3.16 - £100.00
(Rhif siec 005837)
(8) Canda Copying - costau llungopïwr - £191.78
(Rhif siec 005838)
(9) Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Chwefror) - £21.52
(Rhif siec 005839)

Cyfanswm taliadau: £2,404.18

**2. Nodwyd a derbyniwyd adroddiad ariannol 1.4.15 - 29.2.16.**

**3. Archwiliad Mewnol cyfrifon 2015/2016:**

(1) JDH Business Services Ltd - cynllun archwiliad mewnol a nodiadau cyfarwyddiadau - cyfeiriodd clerc y dref at yr wybodaeth a dderbyniwyd - nodwyd a derbyniwyd. Aeth clerc y dref ymlaen i ddweud y bydd yr archwiliad mewnol yn cymryd lle dydd Gwener Ebrill 15fed 2016.

(2) JDH Business Services Ltd - costau archwiliad mewnol - cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd. Nodwyd a derbyniwyd y dyfynbris.

(3) Adolygiad Archwiliad Mewnol. Er mwyn cydymffurfio a threfn lywodraethol ac atebolrwydd roedd angen i'r cyngor gynnal adolygiad o effeithiolrwydd archwiliad mewnol y cyngor. Ar ôl i'r wyth aelod oedd yn bresennol gael eu bodloni fod yr archwiliad mewnol a gariwyd allan gan JDH Business Services Ltd yn effeithiol, arwyddwyd y ddogfen i'r bwriad hynny gan yr wyth aelod

(4) Rheolaeth Ariannol Fewnol. Gan fod yr wyth aelod yn bresennol wedi eu bodloni fod yr arolwg a wnaed pob chwarter yn y flwyddyn ariannol bresennol yn cadarnhau fod y cofnodion yn y llyfr arian yn gywir, arwyddwyd y dystysgrif rheolaeth ariannol fewnol gan yr wyth aelod.

4 **Materion ariannol eraill.** Nodwyd derbyn £1,053.73 oddi wrth HMRC sef ad daliad TAW.

5. **Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau ac e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Dinbych yn ei Flodau, (2) Urdd, (3) Marchnad y Bobl Dinbych, (4) Tenovus.

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Denbigh Men's Shed - £620 (A.137)(Rhif siec 005840)
(2) Cymdeithas Eirianfa - - £1500 (A.137)(Rhif siec 005841)
(3) Gwarchod Cymdogol Lyf Lôn - am fod un grant wedi ei wneud yn barod yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, cytunwyd i ohirio'r cais tan y flwyddyn ariannol newydd.
(4) Cadi Mars Jones - gwrthodwyd y cais am nad oedd gan y cyngor yr awdurdod i roddi grantiau i unigolion.
(5) Cymorth Cancr Macmillan - £100 (A.137)(Rhif siec 005842)
(6) Sioe Dinbych a Flint - am fod un grant wedi ei wneud yn barod yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, cytunwyd i ohirio'r cais tan y flwyddyn ariannol newydd.

Cyfanswm taliadau cymorthdaliadau: £2,220.

3. Clwb Pêl Droed Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd yn hysbysu'r cyngor na ddefnyddiwyd y grant o £1,500 a wnaed ym mis Medi 2015 ac yn gwneud cais am i'r clwb gadw'r grant tan ddechrau'r tymor pêl droed newydd pan fwriedir prynu'r

llifoleuadau cludol. Nodwyd y llythyr gyda diolch am yr wybodaeth a phenderfynwyd cytuno a'r cais.

5. **Amgueddfa Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Gwyneth Kensler yn gwneud cais am i'r cyngor dalu'r anfoneb am atgyweirio'r to. Gofynnodd y Cyng Roy Tickle, pam na ddywedwyd wrth y cyngor, fel y perchennog, fod angen gwneud gwaith ar y to. Ymatebodd y Cyng Kensler fod y mater yn fater brys. Aeth y Cyng Kensler ymlaen i ddweud ei bod wedi cymryd y sylw i ystyriaeth. Cytunwyd talu'r anfoneb yn y swm o £96.

6. **Tower Mint Ltd - Medal coffau Pen-blwydd y Frenhines Elizabeth yn 90oed ar gyfer ysgolion a chynghorau.** Cytunwyd i nodi'r ohebiaeth**.**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.44 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................